# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**2016 dccc 4**

## RHAN 4

AMRYWIOL

*Cofnodion amgylchedd hanesyddol*

### 36 Mynediad i gofnodion amgylchedd hanesyddol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi pob cofnod amgylchedd hanesyddol ar gael er mwyn i'r cyhoedd edrych arno mewn unrhyw fodd sy'n briodol yn eu barn hwy;

(b) pan fo person yn gofyn am gopi o ran o gofnod amgylchedd hanesyddol neu fanylion y ceir mynediad iddynt drwy gofnod o'r fath, ac y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y cais yn rhesymol, ddarparu copi o'r rhan honno o'r cofnod neu'r manylion hynny i'r person;

(c) rhoi ar gael i berson sy'n dymuno edrych ar gofnod amgylchedd hanesyddol gyngor ar adalw a deall yr wybodaeth sydd wedi ei darparu yn y cofnod neu y ceir mynediad iddi drwy'r cofnod neu gynhorthwy i wneud hynny;

(d) pan fo person yn gofyn i wybodaeth sydd wedi ei darparu mewn cofnod amgylchedd hanesyddol neu y ceir mynediad iddi drwy gofnod o'r fath gael ei hadalw ac y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y cais yn rhesymol, lunio dogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth i'r person.

(2) Wrth asesu at ddibenion is-adran (1)(b) neu (d) a yw cais yn rhesymol, mae'r materion y caiff Gweinidogion Cymru eu hystyried yn cynnwys unrhyw geisiadau blaenorol o'r fath a wnaed gan y person o dan sylw neu ar ei ran.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru godi ffi am—

(a) darparu copi neu fanylion o dan is-adran (1)(b);

(b) darparu cyngor neu gynhorthwy o dan is-adran (1)(c);

(c) llunio dogfen o dan is-adran (1)(d).

(4) Rhaid i ffi a godir o dan is-adran (3) gael ei chyfrifo drwy gyfeirio at y gost o ddarparu'r gwasanaeth y mae'r ffi yn ymwneud ag ef.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 36 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(3)**

**I2** A. 36 mewn grym ar 31.5.2017 gan O.S. 2017/633, **ergl. 4(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Adran 36 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

– Act repealed by 2023 asc 3 Sch. 13 para. 193